**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

19 Chwefror 2026

Annwyl Peredur,

Bydd cyfarfod o'r Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid yn cael ei gynnal ar 19 Mawrth yng Ngogledd Iwerddon. Bydd y cyfarfod yn cael ei gadeirio gan Weinidog Cyllid Gogledd Iwerddon, John O'Dowd.

Bydd yr agenda yn ymdrin â'r rhagolygon economaidd a Rhagolwg y Gwanwyn, gan roi cyfle i drafod materion neu oblygiadau sy'n deillio o Ddatganiad y Canghellor ar 3 Mawrth, a myfyrio arnynt.

Bydd y cyfarfod yn canolbwyntio yn bennaf ar ystyried y potensial ar gyfer gwella sut mae fformiwla Barnett yn gweithredu. Ar hyn o bryd, mae gwaith ar y cyd yn mynd rhagddo gyda Thrysorlys EF a'r llywodraethau datganoledig eraill i geisio mynd i'r afael â phryderon o ran tegwch gweithrediad y system bresennol. Disgwylir i bapur gael ei gyflwyno yn y cyfarfod i'w drafod.

Byddwn hefyd yn cael trafodaeth am Sefydliadau Ariannol Preifat, megis y Gronfa Gyfoeth Wladol, Banc Busnes Prydain a Great British Energy. Bydd yn ddefnyddiol ystyried sut maent yn gweithredu ac yn rhyngweithio â llywodraethau datganoledig ar hyn o bryd, gan gynnwys sut y gallant helpu i hybu twf economaidd.

Byddwn yn parhau â'r trafodaethau ynghylch gwella'r hyblygrwydd cyllidol sydd ar gael i lywodraethau datganoledig a mynd i'r afael â'r defnydd o Ddeddf Marchnad Fewnol y DU a phwerau cymorth ariannol gan Lywodraeth y DU.

Yn olaf, byddaf yn rhannu fy myfyrdodau ynghylch y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid, a sefydlwyd fel rhan o drefniadau'r Adolygiad

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN


Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cysylltiadau Rhynglywodraethol a gyflwynwyd yn 2022, gan gynnwys yr hyn sydd wedi gweithio'n dda a meysydd posibl i'w datblygu yn y dyfodol.

Byddaf yn ysgrifennu at y Pwyllgor ar ôl y cyfarfod i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau.

Yn gywir,



**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language